OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 No. 213

# Gorchymyn Pysgodfa Cregyn Gleision a Wystrys Afon Menai (Dwyrain) 2022

## RHAN 2

### Yr hawl i bysgodfa unigol

**Cydsyniad Gweinidogion Cymru i les**

**9.**—(1) Rhaid i gais am gydsyniad Gweinidogion Cymru o dan erthygl 8(2) gael ei wneud yn ysgrifenedig a chynnwys—

(a) copi o'r les ddrafft; a

(b) datganiad oddi wrth y Grantî o blaid y cais.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i'r Grantî ddarparu iddynt unrhyw wybodaeth bellach sy'n rhesymol ofynnol ganddynt er mwyn ystyried y cais.

(3) Cyn rhoi cydsyniad i unrhyw les rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i—

(a) effaith y les arfaethedig ar y safleoedd morol Ewropeaidd; a

(b) effaith y les arfaethedig ar yr amgylchedd morol.

(4) Rhaid i gydsyniad Gweinidogion Cymru gael ei roi'n ysgrifenedig.